PEMBROKE TOWN WALLS TRUST

# Cylchlythyr
## Hydref 2022



UK Government
Llywodraeth y DU

*Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.* This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

## Seiri Maen Ifanc Llwyddiannus




Cyflwynwyd tystysgrifau i 19 o bobl ifanc sy'n dysgu sut i adeiladu yng Ngholeg Sir Benfro ar ôl iddyn nhw gymryd rhan mewn cwrs deng niwrnod Cyflwyniad i Waith Maen Traddodiadol yn gynharach eleni. Roedd y tystysgrifau a gyflwynwyd gan Ganolfan Tywi yn cofnodi eu gwaith caled a'u cyflawniad.

Gwnaed y cyflwyniadau gan Diwtor y Cwrs, Oliver Coe o Coe Stone Ltd, yn y Coleg ym mis Mehefin lle'r oedd wythnos gyntaf pob cwrs wedi'i gynnal o ran y gwaith theori a pheth gwaith ymarferol. Roedd hyfforddiant yr ail wythnos ym Mhenfro yn gweithio ar un o furiau bwrgais y dref. Ariannwyd y cyrsiau gan Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro trwy Gronfa Adfywio Gymunedol y DU yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Penfro.



Dywedodd James Roach-John, y Tiwtor Coleg, oedd yn gyfrifol am y myfyrwyr: "Mae'r dysgwyr wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm ac wedi mwynhau dod mas o'r coleg i wneud gwaith go iawn ar safle. Mae wedi bod mor dda iddyn nhw weld pob dim yn dod i fwcwl a chlymu hynny gyda hanes eu cymuned hefyd. O safbwynt y Coleg, mae yna bosibilrwydd o waith yn y dyfodol ac rydym yn diolch i Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro am roi'r cyfle hwn inni. Mae wedi bod yn brosiect gwerth chweil."

Dywedodd Elizabeth Gossage, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro, "Rydym mor falch o weld hyn i gyd yn dod i fwcwl o'r diwedd. Rydym wedi bod yn gweithio ers peth amser i ddatblygu'r bartneriaeth yma a chyflwyno hyfforddiant yn y dull hwn. Mae hyfforddi seiri maen y dyfodol yn ganolog i gynaladwyedd ein gwaith ac mae dysgu'r sgiliau hyn yn mynd i fod yn dda o ran gobeithion cyflogaeth tymor hir y bobl ifanc."

## Rydym yn gwneud cynnydd da



Rydym wedi gwneud rhagor o gynnydd eleni trwy adfer platfform gwn y Rhyfel Cartref a'r darn o'r mur oedd wedi hollti'n ddrwg gerllaw iddo. Cafodd y gwaith ei wneud fel rhan o brofiad gwaith un o'n hyfforddeion dros gyfnod o 10 diwrnod o dan arolygiaeth Oliver Coe.

Bydd y mur bwrgais a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyrsiau hyfforddi wedi ei gwblhau cyn hir ac fe fydd yna dywarch blodau gwyllt y weirglodd ar ei ben wedi'i ariannu gan Local Giving Magic Little Grant.

localgiving

**Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro**
d/o Canolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Ffordd Way, Penfro SA71 4DR
CIO Cofrestrwyd yng Nghymru Rhif 1157626
pembroketwt@gmail.com www.pembroketownwallstrust.org.uk—Facebook @pembroketownwallstrust




# Rydym yn gymaint mwy na dim ond muriau

Ers i'r Ymddiriedolaeth ddechrau ar ei waith yn 2013 dyma yw ein hagwedd a'n dywediad cyson. Beth ydyn ni'n ei feddwl?

Mae adfer a chynnal a chadw muriau canol oesol Penfro yn ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud ond mae llawer mwy iddi na hynny. Mae'r muriau yn ganolog yn hanes hir y dref, a hithau'n dref hynod o anghyffredin gan ei bod yn dal wedi'i gosod allan ar y patrwm canoloesol. Er, ar y cyfan, mewn cyflwr truenus mae'r muriau yn dal i amgylchynu rhan helaeth o'r dref a nifer sylweddol o furiau bwrgais yn dal i wahanu eiddo ar hyd y Stryd Fawr ac mae'r sylfeini canoloesol yn dal yno. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu cadw ac ar yr un pryd sicrhau bod eu cadwraeth yn berthnasol i Benfro fel tref fodern.

Felly, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu hyfforddiant i ieuenctid lleol i fod yn seiri maen treftadaeth, gan ddefnyddio technoleg trwy ein gwefan i gynhyrchu arweinlyfr yn cyflwyno hanes y Stryd Fawr; ymwneud â'r gymuned leol trwy drefnu teithiau tywys, sgyrsiau treftadaeth ac achlysuron. Rydym wedi ymuno â Phrosiect Ieuenctid Tanyard ac mae eu prosiect Cardiau Post a Phodcast nhw wedi cynhyrchu ffilmiau ar ein cyfer ac wedi dylunio ein gwefan. A thrwy Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol rydym wedi sicrhau bod ein gwaith yn diogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth. Rydym yn bwriadu gosod tyweirch gweirglodd blodau gwyllt ar ben y muriau bwrgais. Ac yn bwysicach fyth rydym wedi gweithio'n galed iawn eleni i ddatblygu Cynllun Rheoli uchelgeisiol ac arloesol a fydd yn ein galluogi i weithio gyda pherchnogion muriau a'r gymuned i ariannu adfer a rheoli cynaliadwy o'r muriau am flynyddoedd i ddod. I ganfod mwy am amdanom ni neu i ymuno â ni, - cymrwch olwg ar ein gwefan
www.pembroketownwallstrust.org.uk/




### Iau 27ain Hydref— 7pm Tŷ'r Ffowndri, Cwmins Penfro

Dangos ffilmiau a wnaed gan Gymdeithas Hanes Llangwm a Phrosiect Ieuenctid Tanyard ar gyfer Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro. *Yn Enedigol ar y Cleddau—Mwy na dim ond y Muriau—Hyfforddi Seiri Maen—Gardd trwy Amser.*

### Iau 17eg Tachwedd—7pm Canolfan Treftadaeth Doc Penfro, Ffordd Meyrick Owen

*Golwg Gyffredinol ar Ddechreuadau a Datblygiad Doc Penfro* gan Adrian James fydd yn canolbwyntio ar dreftadaeth adeiledig Doc Penfro gan gynnwys adeiladau yn hen iard y dociau a thai oedd wedi'u codi i letya gweithwyr y dociau. Awgrymiadau ar ble i ddod o hyd i hanes tai – eich tŷ chi hyd yn oed efallai!

### Gwener 9fed Rhagfyr—7pm Tŷ'r Ffowndri, Cwmins Penfro

*Gogoniannau Diflanedig: Gatiau a muriau Hwlffordd Ganoloesol* gan Simon Hancock fydd yn edrych ar faint ac adeiledd muriau amddiffynnol Hwlffordd ganoloesol ac yn archwilio'r hyn sydd yn weddill fel y mae'n nhw heddiw yn ogystal â lleoliadau gatiau'r dref oedd yn dal i sefyll yn y ddeunawfed ganrif, er yn anffodus does dim ohonyn nhw i'w gweld erbyn hyn.